# Agenda

## Cwestiynau ac Ymatebion Ffurfiol y Cyngor

Dyddiad: Dydd Llun, 8 Awst 2022

---

**Eitem** **Wardiau Dan Sylw**

1 Cwestiwn i'r Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd a Bioamrywiaeth: 2022/09 - Gwella Cyfraddau Ailgylchu Casnewydd

**Gofynnodd y Cynghorydd Fouweather:**

A all yr Aelod Cabinet dros newid hinsawdd egluro sut mae hi'n bwriadu gwella cyfraddau ailgylchu ymhellach yn y ddinas?

**Ymatebodd y Cynghorydd Forsey:**

Gyda chyfradd ailgylchu o 67.1%, mae Cyngor Dinas Casnewydd ar flaen targedau ailgylchu statudol Cymru ar hyn o bryd a dyma'r ddinas ailgylchu orau yn y DU. Cymeradwyodd y Cyngor ei Strategaeth Gwastraff bresennol ym mis Chwefror 2020. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r weledigaeth a'r blaenoriaethau cyffredinol, ond hefyd yr amcanion a'r camau penodol sydd wedi eu cytuno i sicrhau bod y Cyngor yn cyrraedd y targedau ailgylchu. Bydd y tîm gwastraff yn parhau i weithio'n galed i weithredu pob cam ac i fonitro cynnydd a pherfformiad yn unol â hynny. Rwy'n darparu dolen i'r Strategaeth Gwastraff isod: STRATEGAETH GWASTRAFF Casnewydd